

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Catrin Roberts

Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor Cymuned

8^{fed} o Fai, 2012

Presennol: Catrin Roberts, Huw Roberts, Huw Antur, Hywel G Evans, Arwel LL Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Ian Trow, Bethan Williams,

Alan Evans, Bethan Edwards, Lis Puw

Ymddiheuriadau: Beryl H Griffiths, Rhodri P Jones

1 Cyhoeddodd y Swyddog Priodol ganlyniad yr Etholiadau diweddar, sef:

Cyngor Sir Gwynedd - Mr Alan Evans

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn - Huw Antur Edwards, Hywel G Evans, Beryl H Griffiths, Arwel LL Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Rhodri P Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Bethan Williams

Arwyddodd y Cynghorwyr y Datganiad Derbyn Swydd, ond cyhoeddodd Mr Hywel Evans ei fod yn sefyll lawr fel Cynghorydd ar gyngor meddygol, er ei fod yn barod i barhau fel Swyddog y Fynwent Newydd.

Cytunwyd i gyhoeddi hysbysiad o gyfethol, i'w drafod yng nghyfarfod mis Mehefin o'r Cyngor.

2 O dan gadeiryddiaeth Mrs Catrin Roberts, cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion

Cyfarfod Blynyddol 2011

3 Etholwyd Huw Roberts fel Cadeirydd

4 Etholwyd Huw Antur yn Is-gadeirydd

5 Penodwyd is-bwyllgor Cyllid, sef y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Ariannol, y Clerc

6 Penodwyd is-bwyllgor mynwentydd, sef Y Cadeirydd, Arwel LL Jones, Ian Trow, Hywel Evans a'r Clerc.

7 Cadarnhawyd Rheolau Sefydlog y Cyngor (sy'n cynnwys côd ymddygiad yr aelodau)

8 Cadarnhawyd Polisi Amgylcheddol y Cyngor Cymuned

9 Cadarnhawyd Polisi Cyfle Cyfartal y Cyngor

10 Mabwysiadwyd y Rheoliadau Cyllidol

11 Derbyniwyd Adroddiad Blynyddol y Swyddog Ariannol ar gyfer yr Archwilwyr